Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Proses Gwyno'r Cod Ymddygiad - Crynodeb

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

## Cynnwys


1. **Cyflwyniad** ........ 3
2. **Cyn-Asesu** ........ 3
3. **Asesu** ........ 3
4. **Ymchwilio** ........ 5
5. **Adolygu** ........ 6
6. **Monitro, adolygu a chyhoeddi** ........ 7

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi ein proses ar gyfer ystyried cwynion am achosion o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau ac aelodau cyfetholedig o:

- awdurdodau Lleol
- cynghorau Cymuned
- awdurdodau tân ac achub
- awdurdodau parciau cenedlaethol
- paneli'r heddlu a throseddu yng Nghymru.

## 2. Cyn-Asesu

2.1 Caiff pob cwyn ac ymholiad eu derbyn gan y Tîm Derbyn.

2.2 Rhaid i'r Tîm Derbyn gadarnhau bod yr achwynydd yn cytuno i'r gŵyn (ac unrhyw ddogfennau a atodwyd) gael ei rhannu ag eraill, (gan gynnwys yr Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro, a lle bo'n briodol, y Clerc). Rhaid i'r achwynydd hefyd fod yn barod i roi tystiolaeth lafar i gefnogi ei gŵyn i Bwyllgor Safonau'r awdurdod neu dribiwnlys achos a benodir i ystyried unrhyw adroddiad a gyhoeddir gennym.

2.3 Lle bo'r wybodaeth a ddarparwyd a/neu gopïau o ddogfennau yn y gŵyn yn ymwneud â thrydydd parti, efallai y bydd angen i'r Tîm Derbyn gael datganiad gan y trydydd parti hwnnw er mwyn iddo gael ei ystyried fel rhan o'r gŵyn a gyflwynwyd.

## 3. Asesu

3.1 Yna, caiff y gŵyn ei throsglwyddo i'r Tîm Cod Ymddygiad. Bydd yr Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a lle bo'n briodol y Clerc yn cael gwybod bod cwyn wedi dod i law. Bydd copi wedi'i olygu o'r gŵyn ac unrhyw ddogfennau a ddarparwyd gyda hi yn cael eu hanfon. Bydd Cefnogaeth Gwaith Achos yn cefnogi'r Tîm gyda'r dasg hon.

3.2 Bydd Swyddog Asesu achosion Cod yn penderfynu a fydd y gŵyn yn cael ei hymchwilio. I wneud y penderfyniad hwn, byddant yn asesu’r gŵyn yn erbyn ein prawf cyhoeddedig sy’n cynnwys 2 gam:

- y prawf ar sail tystiolaeth - rydym yn ystyried a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi’i dorri.
- y prawf ar sail budd cyhoeddus - rydym yn ystyried a oes angen ymchwilio i’r gŵyn neu ei chyfeirio i’r Panel Dyfarnu neu bwyllgor safonau er budd y cyhoedd.

3.3 Os bydd y gŵyn yn methu â diwallu’r naill gam neu’r llall o’r prawf 2 gam, bydd y Swyddog Ymchwilio yn ystyried:

- A oes angen cael rhagor o wybodaeth gan yr achwynydd i ategu’r honiad sydd wedi’i wneud.
- A ddylem gyfeirio’r mater at Swyddog Monitro/Clerc yr awdurdod perthnasol i’w ystyried o dan ei broses ddatrys leol (os yw’n briodol).

3.4 Os nad yw’r un o’r rhain yn berthnasol, byddwn yn gwrthod y gŵyn. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ysgrifennu at yr achwynydd, yr Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a Chlerc y Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned (lle bo’n briodol), i roi gwybod iddynt am y penderfyniad a bydd y ffeil yn cael ei chau.

3.5 Os bydd y Swyddog Ymchwilio o'r farn bod y prawf 2 gam wedi'i ddiwallu a bod yr Ombwdsmon yn cytuno ar ymchwiliad, byddant yn ysgrifennu at yr Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a, lle bo'n briodol, y Clerc. Byddwn yn amlinellu cwmpas yr ymchwiliad. Gall yr Aelod Cyhuddedig ymateb i'r gŵyn a wnaed ond nid oes rheidrwydd arno i wneud hynny ar hyn o bryd. Dyma ddechrau cam Ymchwilio’r broses.

3.6 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn gofyn hefyd am ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) yr achwynydd, yr Aelod Cyhuddedig a Chlerc y Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned (lle bo’n briodol).

## 4. Ymchwilio

4.1 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd ac yn holi neu’n gofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu gorff y mae’n ei ystyried yn briodol.

4.2 Efallai y byddwn yn newid cyfeiriad a chwmpas ymchwiliad.

4.3 Efallai y byddwn yn cychwyn ymchwiliad newydd os gwelir ei bod yn bosibl bod aelodau etholedig eraill wedi torri’r Cod.

4.4 Efallai y byddwn yn terfynu ymchwiliad os credir nad yw gofynion y prawf 2 gam wedi’u diwallu bellach.

4.5 Pan fydd y Swyddog Ymchwilio yn fodlon bod pob ymholiad rhesymol a chymesur wedi’i wneud, efallai y byddant yn rhannu’r dystiolaeth a gasglwyd y mae'n debygol y dibynnir arni ar gyfer cwblhau'r ymchwiliad gyda'r Aelod Cyhuddedig.

4.6 Byddwn yn rhoi cyfle i'r Aelod Cyhuddedig ymateb i'r gŵyn/cwynion, a'r dystiolaeth a gasglwyd, mewn cyfweliad lle ystyrir bod achos i'w ateb a'i bod yn briodol gwneud hynny.

4.7 Pan fydd yr ymchwiliad wedi’i gwblhau, bydd y dystiolaeth yn cael ei hadolygu a bydd canlyniad yr ymchwiliad yn cael ei benderfynu.

4.8 Y canlyniadau posibl i’r ymchwiliad yw:

a) nad oes tystiolaeth bod y Cod wedi cael ei dorri

b) nad oes angen cymryd camau

c) y bydd adroddiad ar y mater yn cael ei anfon at y Swyddog Monitro er mwyn ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau

d) y bydd adroddiad ar y mater yn cael ei anfon at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn ei benderfynu gan dribiwnlys.

4.9 Os gwnawn benderfyniad i derfynu ymchwiliad o dan a) a b) uchod, byddwn yn ysgrifennu llythyr i roi gwybod i’r achwynydd, yr Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a’r Clerc yr awdurdod perthnasol (lle bo’n briodol).

4.10 Mewn achosion lle byddwn yn penderfynu terfynu ymchwiliad o dan c) a d) uchod, byddwn yn anfon adroddiad drafft at yr Aelod Cyhuddedig. Byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau y gallant eu gwneud am y ffeithiau a ganfuwyd ac y mae anghydfod yn eu cylch, y dadansoddiad o’r ffeithiau, a’r casgliadau a’r canfyddiadau dros dro a byddwn yn adolygu’r adroddiad a’i gasgliadau cyn i ni gyhoeddi fersiwn derfynol.

4.11 Bydd copi o’r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda’r Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a Chlerc yr awdurdod perthnasol (lle bo’n briodol). Bydd crynodeb yn cael ei anfon ar yr achwynydd.

## 5. Adolygu

5.1 Gall achwynwyr wneud cais ysgrifenedig am adolygiad o’n penderfyniad, o fewn 20 diwrnod o'i dderbyn.

5.2 Mae’n rhaid iddynt ddangos ein bod wedi methu â rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth sydd ar gael neu a oedd wedi’i darparu eisoes.

5.3 Os yw cais am adolygiad ar achos Cod yn cynnwys gwybodaeth ‘newydd’ sy’n cynnwys gwybodaeth neu ddatganiadau tystion, yna gofynnir i achwynwyr wneud cwyn newydd.

5.4 Pan ofynnir am adolygiad o benderfyniad ymchwiliad byddwn yn hysbysu'r Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a'r Clerc (lle bo'n briodol) a rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau.

5.5 Anfonir ceisiadau am adolygiad at ein Swyddog Arwain ar Adolygiadau, i'w hystyried.

5.6 Bydd yr Aelod Cyhuddedig, y Swyddog Monitro a'r Clerc (lle bo'n briodol) hefyd yn cael gwybod am ganlyniad yr adolygiad o benderfyniad ymchwiliad.

5.7 Fel rheol, ni allwn ystyried heriau i'n penderfyniadau os ydym wedi cwblhau ymchwiliad o dan c) a d) uchod.

## 6. Monitro, adolygu a chyhoeddi

6.1 Caiff y ddogfen hon ei hadolygu bob 2 flynedd a'i chyhoeddi'n fewnol ac yn allanol.

6.2 Gellir anfon pob ymholiad am y ddogfen hon at rheolipolisi@ombwdsmon.cymru